Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
North Wales Economic Ambition Board

**TAFLEN BENDERFYNIAD BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**

**DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** 17 Tachwedd, 2023

**PWNC**

Eitem 6: ACHOS BUSNES LLAWN, CANOLFAN OPTEG A PHEIRIANNEG MENTER

**PENDERFYNIAD**

1. **Bod y Bwrdd yn cymeradwyo'r Achos Busnes Llawn ar gyfer y prosiect Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter gan adlewyrchu'r ceisiadau newid a gymeradwywyd yn y cam Achos Busnes Amlinellol ac awdurdodi'r Cyfarwyddwr Portffolio, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, y Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro, i gytuno ac ymrwymo i gytundeb ariannu gyda Phrifysgol Wrecsam er mwyn cyflawni'r prosiect, ar y sail fod Prifysgol Wrecsam yn rhoi sylw i'r materion sy'n weddill fel y nodir yn adran 7 o'r adroddiad.**
2. **Bod y Bwrdd yn nodi y bydd camau diweddarach y prosiect yn amodol ar Brifysgol Wrecsam yn cynhyrchu Achos Cyfiawnhad Busnes ar gyfer pob cyfnod gwariant.**
3. **Bod y Bwrdd yn dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Portffolio, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, y Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro, awdurdod i gymeradwyo'r Achos Cyfiawnhad Busnes dilynol o fewn sgôp yr Achos Busnes Llawn ar gyfer cyfnodau diweddarach y prosiect lle mae gwariant a buddion yn unol â'r Achos Busnes Llawn a gyflwynir.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Ceisio cymeradwyaeth y Bwrdd i Achos Busnes Amlinellol y Prosiect Ganolfan Opteg a Pheirianneg Menter.

Cymeradwyodd y Bwrdd yr Achos Busnes Amlinellol ar gyfer y prosiect ar 29 Ebrill 2022 ynghyd â chais am newid yn ymwneud â gostyngiad mewn arian cyfatebol ar gyfer y prosiect. Wedi hynny derbyniodd y prosiect gymeradwyaeth y broses sicrwydd gan Lywodraeth Cymru. Galluogodd hyn i Brifysgol Wrecsam fwrw ymlaen â'r wedd caffael a datblygu Achos Busnes Llawn.

Mae Prifysgol Wrecsam bellach wedi cwblhau'r caffael ar gyfer gwedd 1 y prosiect a bellach yn cyflwyno Achos Busnes Llawn i'r Bwrdd am benderfyniad buddsoddi terfynol.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL**

Datganodd Dr Maria Hinfelaar fuddiant personol gan fod Prifysgol Wrecsam yn noddwr y Prosiect Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter. Roedd o'r farn bod y buddiant yn rhagfarnu, a gadawodd y cyfarfod yn ystod yr eitem yn ei chyfanrwydd.

Datganodd Graham Boase fuddiant personol oherwydd ei fod yn Gyfarwyddwr Glyndŵr Innovations Ltd. sy'n eistedd o dan Brifysgol Wrecsam. Roedd o'r farn bod y buddiant yn rhagfarnu, a gadawodd y cyfarfod yn ystod yr eitem yn ei chyfanrwydd.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn sydd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad.